# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## SLC(3) 07-08(p1)

**Dyddiad y Cyfarfod: 08 Ebrill 2008**
**Amser y Cyfarfod: 8.15am**
**Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd Teitl: Cynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008** Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) arfaethedig ar 15 Ionawr 2008 a disgwylir iddo ddod i ben ar 29 Ebrill 2008. **Y Cefndir** Gan fod y Mesur yn ymdrin â'r ystod oedran 14-16 oed a dysgwyr ôl-16, mae gofyn ailadrodd y rheoliadau arfaethedig ar gyfer pob grŵp er mwyn cydymffurfio â Deddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. O'r herwydd, byddaf yn mynd ati yn y llythyr hwn i gyflwyno gwybodaeth o dan 9 pennawd er mwyn ei gwneud yn haws i chi gyfeirio at fy sylwadau. Gobeithiaf y bydd hyn yn hwyluso gwaith y pwyllgor. Ym mhob achos yr wyf wedi tynnu sylw ato, barnwyd bod angen is-ddeddfwriaeth naill ai yn sgil yr angen i osgoi gormod o fanylion neu er mwyn caniatáu hyblygrwydd, a hynny o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynir yn y mesur ei hun. **1. Rheoliadau ynghylch llunio cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 a dysgwyr yn yr ystod oedran 16-18 -** Adrannau 4 (adran newydd 116A(5) o Ddeddf Addysg 2002) a 18 (adran newydd 33A(4) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oedran 16-18 oed. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion y gofynion ynghylch cwricwla lleol a gaiff eu llunio gan awdurdodau lleol, er enghraifft, pennu isafswm y cyrsiau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol a'r gyfran leiaf o gyrsiau astudio galwedigaethol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Mae'r rheoliadau'n manylu ar sut y bydd y fframwaith a amlinellir yn y Mesur yn gweithio ac yn ymdrin â manylion a fydd yn golygu, yn ôl pob tebyg, y bydd angen newid polisïau o bryd i'w gilydd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau (er enghraifft wrth i nifer y cyrsiau newydd sydd ar gael amrywio). Bernir bod defnyddio pwerau llunio rheoliadau yn briodol ar gyfer y lefel hon o wybodaeth. Bwriedir defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn. Eir ati i ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y rheoliadau perthnasol drwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19. **2. Rheoliadau ynghylch dewisiadau disgyblion o ran cyrsiau cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 a dysgwyr yn yr ystod oedran 16-18 oed.** Adran 5 (adran newydd 116B (2) o Ddeddf Addysg 2002) ac Adran 19 (adran newydd 33B (3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) Caiff y cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a dysgwyr yn yr ystod oedran 16 i 18 oed ei lunio ar sail dewisiadau dysgwyr. Mae angen llunio rheoliadau ar gyfer y broses lle mae gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cyrsiau astudio a gynhwysir yn y cwricwlwm lleol y mae ei ysgol yn ei ddilyn. Mae hawl gan ddysgwyr i ddewis dilyn cwrs astudio penodol. Mae darpariaethau diweddarach yn pennu a fydd y dewis hwnnw'n arwain at hawl i ddilyn y cwrs astudio dan sylw. Gellir cyfyngu ar hawliau dysgwyr i ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau sydd yn y cwricwlwm lleol perthnasol drwy reoliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru. Bydd y rheoliadau yn pennu uchafswm y cyrsiau y caiff y disgybl eu dewis o'r cwricwlwm lleol cyfan, y cyfuniad o gyrsiau o fathau gwahanol y ceir eu dewis, a'r cyfnod a ganiateir ar gyfer gwneud y dewisiadau hynny. Mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ar y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwneud dewisiadau, a hynny er mwyn i'r asiantaethau perthnasol gael digon o amser i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cyrsiau astudio a ddewisir. Gan mai ymdrin â'r cyrsiau galwedigaethol a'r cyrsiau academaidd sydd ar gael a wneir, rheoliadau yw'r ffordd orau o ateb y diben. Mae cymwysterau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu diwygio a'u datblygu dros amser. O'r herwydd, ni fyddai'n briodol cynnwys y manylion hyn yn y Mesur ei hun. Bydd angen i'r rheoliadau fod yn eu lle erbyn mis Ionawr 2009 a bwriedir defnyddio'r weithdrefn negyddol ar eu cyfer. Ymgynghorir â rhanddeiliaid drwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19. **3. Rheoliadau ynghylch penderfyniad y Pennaeth neu'r Penadur ynghylch hawl. Adran 7 (adran newydd 116D (2) o Ddeddf Addysg 2002) ac adran 21 (adran newydd 33D (2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)** Byddai'n amhosibl sefydlu system a fyddai'n galluogi pob myfyriwr i ddilyn yr holl gyrsiau astudio y maent yn eu dewis. Er enghraifft, pe bai llond llaw yn unig o ddysgwyr mewn ardal awdurdod addysg lleol yn dewis dilyn cwrs penodol, efallai na fyddai cyflwyno'r cwrs hwnnw yn ddefnydd effeithlon o adnoddau. O'r herwydd, caiff penaethiaid neu benaduriaid benderfynu nad oes gan ddysgwr yr hawl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio penodol. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru nodi ar ba sail y caiff pennaeth neu benadur benderfynu nad oes hawl gan ddisgybl i ddilyn cwrs astudio. Gallai rheoliadau gynnwys darpariaethau pellach ynghylch gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, gallent bennu bod yn rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud erbyn amser penodol fel y bo myfyrwyr yn gwybod mewn da bryd pa gyrsiau astudio y byddant yn eu dilyn ar ôl Cyfnod Allweddol 4. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, mae angen llunio rheoliadau a chanllawiau penodol ar gyfer penaethiaid a phenaduriaid ynghylch arfer y swyddogaeth o benderfynu ar hawl dysgwr. Er enghraifft, gallai fod yn briodol atal disgybl rhag dilyn cwrs penodol ar sail ei allu ar y pryd. Gan y bydd cryn fanylder yn y rheoliadau hyn, a chan y bydd y modd y'u gweithredir yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd, bernir ei bod yn fwy priodol cynnwys y manylion mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn y Mesur ei hun. Bydd angen i'r rheoliadau hyn fod yn eu lle erbyn Ionawr 2009 a bwriedir defnyddio'r weithdrefn negyddol ar eu cyfer. **4. Rheoliadau ynghylch penderfyniad y Pennaeth neu'r Penadur i ddileu hawl. Adran 9 (adran newydd 116F (2) o Ddeddf Addysg 2002) ac Adran 23 (adran newydd 33F (2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)** Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen dileu hawl myfyriwr i ddilyn cwrs astudio. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd pennaeth neu benadur am ddileu hawl ar sail lles cyffredinol dysgwr neu grŵp o ddysgwyr. Bydd rheoliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru yn pennu ar ba sail y caiff pennaeth neu benadur ysgol neu sefydliad perthnasol benderfynu na fydd gan ddysgwr bellach hawl i ddilyn cwrs astudio. Ymdrin â manylion fydd y rheoliadau hyn ac o'r herwydd, bydd angen eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac efallai eu diwygio. Dyna paham y bernir ei fod yn fater y byddai'n fwy priodol ymdrin ag ef mewn is-ddeddfwriaeth. Rhagwelir mai'r weithdrefn negyddol a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau o'r fath. Ymgynghorir â rhanddeiliaid ynghylch y rheoliadau perthnasol. **5. Rheoliadau ynghylch cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio. Adran 11 (adran newydd 116H (6) o Ddeddf Addysg 2002) ac Adran 25 (adran newydd 33H (6) o Fesur Dysgu a Sgiliau 2000)** Mae'r Mesur yn anelu at sicrhau bod cymaint â phosibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm lleol. Er mwyn sicrhau dewis mor eang â phosibl, mae'n bosibl y bydd angen i leoliadau dysgu gydweithio. Ar hyn o bryd, diffiniad y Mesur o drefniadau cydweithredu yw "o ran ysgol a gynhelir, trefniadau y mae unrhyw berson yn darparu odanynt (sic) ar ran corff llywodraethu'r ysgol gwrs astudio sydd wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm lleol ar gyfer ardal yr awdurdod addysg lleol y cynhelir yr ysgol ganddo". Mae opsiwn yn y mesur i ddefnyddio rheoliadau er mwyn estyn y diffiniad hwn o drefniadau cydweithredu. Mae'n bosibl y bydd profiad yn dangos bod cyfiawnhad dros estyn y diffiniad i gynnwys trefniadau cydweithio (drwy lunio

rheoliadau o dan Adran 26 ac Adran 166 o'r Deddf Addysg ac Arolygu) os gwelir nad yw'r trefniadau cydweithredu presennol a ddisgrifir yn y Mesur yn ddigon i gyflawni amcan y ddeddfwriaeth. O ran y mater hwn, yr wyf yn disgwyl yr ymatebion i gwestiwn 9 yn y ddogfen ymgynghori. Bwriedir defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn. Ymgynghorir â rhanddeiliaid ynghylch y rheoliadau perthnasol drwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19. **6. Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu ac atal y cwricwlwm lleol dros dro. Adran 13 (adran newydd 116J (1) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2002) ac Adran 27 (adran newydd 33J(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)** Mae'r meysydd dysgu yn seiliedig ar y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig. Wrth i'r fframwaith cymwysterau a'i gynnwys ddatblygu yng Nghymru a Lloegr, mae'n bosibl y bydd gofyn diwygio'r meysydd dysgu er mwyn darparu ar gyfer newidiadau o'r fath. O dan amgylchiadau eithafol e.e. trychineb rhanbarthol/lleol, mae'n bosibl y bydd gofyn atal y cwricwlwm lleol dros dro, felly, bydd y gorchymyn yn caniatáu i'r Gweinidog wneud hynny os bydd angen. Y gweithdrefnau cadarnhaol a fyddai'n cael eu defnyddio yn achos y pŵer hwn i lunio gorchymyn. **7. Cymhwyso darpariaethau ynghylch cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig. Adran 14 (adran newydd 116K (1) o Ddeddf Addysg 2002)** Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy gyfrwng rheoliadau, gymhwyso'r darpariaethau ynghylch cwricwlwm lleol i blant nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Mae is-adran (3) yn darparu diffiniad o bwy fyddai yn y categori hwn. Mae'r diffiniad yn cynnwys plant o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu haddysg i gyd, neu'r rhan fwyaf ohoni, o dan drefniadau sy'n cael eu gwneud gan Sefydliadau Addysg Bellach ac nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Gellid defnyddio rheoliadau i sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael manteisio ar yr elfennau o'r hawl o dan Lwybrau Dysgu 14-19 sy'n berthnasol ac yn briodol i'w hanghenion penodol hwy. Yr egwyddor yn y Mesur yw y dylai'r bobl ifanc hyn gael manteisio ar ddarpariaeth a chymorth priodol ac y gallai eu hanghenion penodol a manwl newid. O'r herwydd, y ffordd orau i ymdrin â'r anghenion hynny fyddai drwy gyfrwng rheoliadau. Y gweithdrefnau negyddol a fyddai'n cael eu defnyddio i lunio'r rheoliadau hyn. **8. Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol. Adran 36 (1) o Fesur Dysgu a Sgiliau 2008** Ar hyn o bryd, wrth ddrafftio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag addysg, y tueddiad yw cymryd y bydd plentyn yn cael y rhan fwyaf o'i addysg ar un safle. O dan y cwricwla lleol a lunnir o dan Rannau 1 a 2 o'r Mesur hwn, nid dyna fydd y sefyllfa o reidrwydd. Diben yr adran hon yw caniatáu i reoliadau gael eu gwneud er mwyn i'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes mewn perthynas ag addysg fod yn gymwys ac yn briodol i blant sy'n cael addysg mewn mwy nag un sefydliad addysgol. Er enghraifft, gallai rheoliadau o dan yr adran hon bennu, at ddibenion y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chyfarfodydd gyda rheini plentyn, fod yn rhaid trin y plentyn fel disgybl cofrestredig mewn mwy nag un ysgol er mwyn rhoi'r hawl i'r rhieni gyfarfod â'r rheini sy'n gyfrifol am addysg y plentyn yn y naill ysgol a'r llall. Bwriedir defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn. Ymgynghorir â rhanddeiliaid ynghylch y rheoliadau perthnasol drwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19. **9. Cychwyn - Adran 38 o Fesur Dysgu a Sgiliau 2008** Mae hwn yn gwneud darpariaeth i'r Mesur ddod i rym ar ddyddiadau penodol drwy orchymyn Gweinidogion Cymru ac mae'n caniatáu dod â'r Mesur i rym ar adegau gwahanol yn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Cael eu gwneud a dod i rym y mae gorchmynion cychwyn, ac nid oes yn rhaid wrth weithdrefnau'r Cynulliad ar eu cyfer. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Lwybrau Dysgu 14-19 gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o 4 blynedd. Gobeithir y bydd y broses hon yn dechrau gyda disgyblion Blwyddyn 10 o fis Medi 2009 ymlaen. **Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths AC Mawrth 2008**